# Canllawiau Digidol
# i Gynghorau Cymuned & Thref
## Cyfarfodydd Aml-leoliad a Hybrid

Mawrth 2024

## Cynnwys


Hanes y Fersiynau ........ 2
1. Rhagarweiniad: ........ 3
2. Ystyriaethau wrth gynllunio fformat Cyfarfodydd Aml-leoliad ........ 4
3. Llwyfannau neu Feddalwedd Cyfathrebu: ........ 5
4. Offer: ........ 7
Offer ar gyfer Cyfarfodydd Sain yn Unig: ........ 7
Offer ar gyfer Cyfarfodydd Fideo ........ 9
Offer i Gefnogi Cyfarfodydd Hybrid gyda Chyfieithu ar y Pryd ........ 11
Dewis 1 ........ 12
Dewis 2 ........ 13
Dewis 3 ........ 14
5. Arferion Gorau yn ystod Cyfarfod: ........ 15
Canllawiau Gweithdrefnol: ........ 15
Etiquette ar gyfer Mynychwyr o Bell yn Benodol: ........ 15
Canllawiau Technegol: ........ 15
Canllawiau Diogeledd: ........ 16
6. Datrys Problemau ........ 17
7 Dolenni a Chyfeiriadau ........ 18


## Hanes Fersiynau

| | Dyddiad | Cynhyrchydd | Rheswm | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| V1 | 26/03/2024 | Justin Horrell | Fersiwn Wreiddiol | 26/03/25 |

## 1. Rhagarweiniad:

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddarpariaethau ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad i awdurdodau lleol, gan gynnwys cynghorau cymuned. Trafodir hynny yn adran 47 y Ddeddf.

Dywed y Ddeddf fod rhaid i awdurdod lleol wneud a chyhoeddi trefniadau i sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd yr awdurdod lleol fel y gall; -

- pobl nad ydynt yn yr un lle fynychu cyfarfodydd, ac y gall
- y bobl hyn siarad gydag a chael eu clywed gan ei gilydd.

Nid yw'r Ddeddf yn mynnu fod rhaid i bobl sy'n mynychu cyfarfodydd o leoedd gwahanol weld a chael eu gweld gan ei gilydd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn 2022 yn esbonio ac yn manylu ar ddarpariaethau Deddf 2021 (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau statudol ar lywodraethiant ar gyfer cynghorau cymuned a thref | GOV.WALES). Mae'r canllawiau'n nodi fod llawer o gynghorau wedi gweld fod presenoldeb mewn cyfarfodydd, gan gynnwys gan y cyhoedd, a chynhyrchiant, wedi gwella gyda chyfarfodydd aml-leoliad. Mae manteision hefyd o ran lleihau'r angen i deithio a galluogi cynghorwyr, aelodau'r cyhoedd a'r wasg i ymgysylltu'n fwy parod ac yn fwy cyfleus â chyfarfodydd cynghorau.

Dywed y canllawiau y gall cyfarfodydd aml-leoliad gynnwys gwahanol sefyllfaoedd:

i) Mae'r holl fynychwyr yn yr un lleoliad ffisegol (nid oes neb wedi dewis mynychu o leoliad arall)
ii) Mae'r holl fynychwyr yn yr un lleoliad ffisegol ac eithrio un unigolyn sy'n ymuno o leoliad arall e.e., trwy gyfarfod fideo neu ffôn.
iii) Mae tua'r un nifer o fynychwyr yn bresennol mewn gofod ffisegol ac yn ymuno trwy gyswllt o bell.
iv) Mae'r holl fynychwyr yn yr un lleoliad ffisegol yn ymuno o bell ac ni wnaed unrhyw drefniadau corfforol.

Mae cyfarfodydd yng nghategorïau ii) a iii) lle y ceir cymysgedd o fynychwyr wyneb yn wyneb ac eraill yn mynychu o bell yn cael eu galw'n aml yn "Hybrid". Mae'r cyfarfodydd hyn yn creu rhai heriau penodol i sicrhau bod gan yr holl fynychwyr gyfle boddhaol a chyfartal i gyfrannu i'r cyfarfod. Mae rhai o'r heriau hynny'n ymwneud â'r dechnoleg a ddefnyddir ond gall eraill ddeillio o'r ffordd y caiff cyfarfod ei gadeirio neu ei gynnal.

## 2. Ystyriaethau wrth gynllunio fformat Cyfarfodydd Aml-leoliad

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chanllawiau dilynol yn nodi fod angen i gynghorau cymuned ddarparu ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad mewn ffordd sy'n galluogi mynychwyr i glywed a chael eu clywed. Mae hyn yn cynnig hyblygrwydd i gynghorau:

- all fod yn wynebu heriau seilwaith yn eu mannau cyfarfod arferol.
- sy'n dewis peidio â buddsoddi mewn offer fideo er mwyn ychwanegu'r elfen weledol neu
- sy'n dymuno parhau i gyfarfod fel y buont i gymaint graddau ag y gallant a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar yr un pryd.

Fodd bynnag, dylai cynghorau roi ystyriaeth hefyd i brofiad cyffredinol unrhyw fynychwyr sy'n mynychu cyfarfod sain yn unig. Yn gyffredinol, mae'n fuddiol i fynychwyr weld wynebau ei gilydd gan fod hynny'n helpu

- adnabod pwy sy'n siarad,

- deall y wybodaeth a'r dadleuon maen nhw'n eu cyflwyno

- galluogi pob mynychydd i ddenu sylw'r cadeirydd.

Mae risg mewn cyfarfod hybrid y bydd mynychwyr o bell na allant weld na chael eu gweld yn cael profiad gwaeth na mynychwyr wyneb yn wyneb. Gelwir hynny weithiau'n "anghyfartaledd presenoldeb".  Yng nghyd-destun cynghorau lleol gallai'r anghyfartaledd hwn leihau gallu cynghorwyr i gynrychioli trigolion eu wardiau neu ardaloedd yn iawn, fyddai'n cael effaith negyddol ar dryloywder ac iechyd democrataidd.

Efallai yr hoffai cynghorau ystyried y cyd-bwysedd rhwng y risgiau o gynnal cyfarfodydd sain yn unig neu gyfarfodydd aml-leoliad cyfyngedig eraill a'r gost bosib o fuddsoddi mewn offer ychwanegol, newid lleoliad corfforol neu gamau lliniarol eraill.

## 3. Llwyfannau neu Feddalwedd Cyfathrebu:

Daeth llwyfannau cyfarfod sain a fideo yn gyfarwydd i bron pawb yn ystod pandemig Covid yn 2020 a 2021. Y rhain yw'r offerynnau sy'n galluogi cyfathrebu amser go iawn ar gyfer cyfarfodydd, seminarau, a rhyngweithiadau eraill drwy'r Rhyngrwyd.

Ymhlith y llwyfannau mwyaf cyffredin yng ngwledydd Prydain yn 2024 oedd Zoom, Microsoft Teams a Google Meet ond mae llwyfannau eraill ar gael.

Bydd y dewis o lwyfannau i gynghorau yn dibynnu ar sawl ffactor:

- Y pris a'r model prisio. Mae pob un o'r llwyfannau'n cynnig fersiwn rad ac am ddim a sawl haen danysgrifio sy'n cynnig nodweddion ychwanegol neu'n cael gwared â chyfyngiadau megis terfynau amser ar gyfarfodydd. Mae Microsoft Teams a Google Meet yn cynnwys tanysgrifiad fel rhan o'u pecynnau cydweithio perthnasol (Microsoft 365 a Google Meet), ond mae tanysgrifiad ar wahân hefyd ar gael. Fel arfer, nid oes ond angen tanysgrifiad i gynnal cyfarfod neu gynhadledd a gall mynychwyr gofrestru a mynychu trwy ddefnyddio'r haenau rhad ac am ddim.
- Nodweddion a buddion. Mae nodweddion craidd y llwyfannau'n debyg iawn, ond mae pob un ohonynt yn cael eu datblygu i gynnwys nodweddion newydd. Enghraifft o hynny yw datblygu ffordd o recordio cyfarfodydd i gynnwys trawsgrifiad awtomatig ac adnabod siaradwyr gwahanol. Bydd angen i gynghorau asesu gwerth y nodweddion gwahanol yn ôl eu hanghenion unigol.
- Integreiddio gydag offerynnau cyfathrebu a chydweithio eraill. Mae'r holl lwyfannau'n darparu integreiddiad gydag offerynnau eraill i gefnogi nodweddion megis cynhyrchu gwahoddiadau cyfarfodydd awtomatig. Mae lefel yr integreiddio yn uwch pan ddarperir y llwyfan cynadledda fel rhan o becyn cydweithio fel Microsoft 365 neu Google Meet
- Rhyngwyneb Defnyddwyr. Mae rhyngwyneb defnyddiwr syml a greddfol yn hanfodol er mwyn cynnig profiad esmwyth i'r defnyddiwr. Mae'r llwyfannau'n gwella eu rhyngwyneb yn gyson, ond efallai y bydd cynghorau eisiau dewis llwyfan oherwydd eu symlder neu gynefindra.

Cofiwch nad oes unrhyw lwyfan sy'n cynnig popeth i bawb. Bydd y llwyfan gorau ar gyfer eich anghenion chi yn dibynnu ar eich gofynion a'ch amgylchiadau penodol. Bydd argaeledd haenau rhad ac am ddim yn galluogi

cynghorau i werthuso llwyfannau gwahanol heb wneud unrhyw fuddsoddiad neu ymrwymiad.

## 4. Offer:

Mae'r offer sydd ei angen ar gyfer y gwahanol fathau o gyfarfodydd aml-leoliad yn amrywio, ond ymhob sefyllfa, bydd angen ystyried yr offer ar gyfer mynychwyr o bell ac ar gyfer unrhyw ystafell gyfarfod gorfforol.

### Offer ar gyfer Cyfarfodydd Sain yn Unig:

Mynychwyr o Bell


1 Ffôn Symudol neu Dirol. Dylai fod modd mynychu cyfarfodydd trwy ddefnyddio cysylltiad ffôn yn unig, gan ddibynnu ar y llwyfan cyfathrebu a ddefnyddir i greu'r "bont" ar gyfer y cyfarfod.
2 Cysylltiad â'r Rhyngrwyd. Efallai y bydd angen cysylltiad sylfaenol â'r rhyngrwyd gan ddibynnu ar y llwyfan cyfathrebu. Ni ddylai mynychu cyfarfod sain yn unig, hyd yn oed drwy lwyfan ar-lein, olygu fod rhaid cael Rhyngrwyd cyflym iawn.
3 Uchelseinyddion/Clustffonau. Gall hyn olygu fod mynychwyr yn cael profiad llawer gwell mewn cyfarfod hirach heb orfod cadw eu ffôn yn eu dwylo am gyfnod estynedig.
4 Microffon. Mae microffon clir yn bwysig mewn cyfarfod sain yn unig. Efallai y bydd angen teclyn ar wahân os nad oes gan yr uchelseinydd neu'r clustffonau a ddefnyddir ficroffon integredig o ansawdd addas.
5 Peiriant Cyfrifiaduro. Efallai hefyd yr hoffai mynychwyr allu defnyddio peiriant cyfrifiaduro (pendesg/gliniadur/tabled) fel y gallant fynd drwy ddogfennau gan gynnwys unrhyw rai allai gael eu dosbarthu neu ddiweddaru yn ystod y cyfarfod. Gallai hon fod yn drefn llawer symlach os ddefnyddir llwyfan fel Zoom, Microsoft Teams neu Google Meet.

Ystafell Gyfarfod (os ddefnyddir un)

1 Ffôn Symudol neu Dirol neu Beiriant Cyfrifiaduro. Er mwyn cysylltu â'r llwyfan cyfathrebu a ddefnyddir.
2 Cysylltiad â'r Rhyngrwyd. Efallai y bydd angen cysylltiad sylfaenol â'r Rhyngrwyd gan ddibynnu ar y llwyfan cyfathrebu. Ni ddylai cynnal cyfarfod sain yn unig, hyd yn oed drwy lwyfan ar-lein, olygu fod rhaid cael Rhyngrwyd cyflym iawn ond dylai fod yn sefydlog er mwyn osgoi unrhyw ymyraethau ar gyfer y mynychwyr ar-lein.
3 Seinyddion a Microffonau neu Ffônseinydd.  Bydd y cyfluniad fydd ei angen yn dibynnu ar faint o bobl sydd yn yr ystafell a maint yr ystafell. Ar gyfer ystafell fwy a, dyweder, mwy na 10 o bobl yn bresennol bydd angen nifer o

ficroffonau er mwyn gallu clywed pawb. Ar gyfer ystafelloedd llai neu lai o bobl yn bresennol dylai ffônseinydd integredig fod yn ddigonol.
4 Peiriant Cyfrifiaduro ar gyfer clerc neu hwylusydd. Bydd hwylusydd y cyfarfod yn elwa o gael peiriant cyfrifiaduro i osod yr alwad ar lwyfan y cyfarfod a chwilio am fynychwyr o bell sy'n dymuno cyfrannu. Efallai hefyd yr hoffai mynychwyr allu defnyddio peiriant cyfrifiaduro (pendesg/gliniadur/tabled) fel y gallant fynd drwy ddogfennau gan gynnwys unrhyw rai allai gael eu dosbarthu neu ddiweddaru yn ystod y cyfarfod a chael profiad tebyg i fynychwyr o bell.

*Ffigur 1: Gosodiad Posib ar gyfer Ystafell Gyfarfod ar gyfer cyfarfod sain*



## Offer ar gyfer Cyfarfodydd Fideo:

Mynychwyr o Bell


1 Peiriant Cyfrifiaduro. (pendesg/gliniadur/tabled) er mwyn cysylltu â'r llwyfan cyfathrebu. Dylai'r peiriant gynnwys gwe gamera integredig neu wedi'i gysylltu er mwyn i fynychwyr o bell allu rhannu eu fideo.
2 Cysylltiad â'r Rhyngrwyd. Mynediad sefydlog â'r Rhyngrwyd trwy fand eang neu ddata symudol 4G/5G.
3 Seinyddion/Microffon/Clustffonau wedi'u cysylltu â'r peiriant cyfrifiaduro. Er mwyn sicrhau gwrando a siarad eglur yn y cyfarfod.


Ystafell Gyfarfod (os oes angen un)

1 Peiriant Cyfrifiaduro ar gyfer y prif gysylltiad. Er mwyn cysylltu â'r llwyfan cyfathrebu a ddefnyddir.
2 Cysylltiad â'r Rhyngrwyd. Mynediad sefydlog â'r Rhyngrwyd trwy fand eang neu ddata symudol 4G/5G.
3 Seinyddion a Microffonau. Bydd y cyfluniad fydd ei angen yn dibynnu ar faint o bobl sydd yn yr ystafell a maint yr ystafell.
4 Peiriant Cyfrifiaduro ar gyfer clerc neu hwylusydd. Bydd hwylusydd y cyfarfod yn elwa o gael peiriant cyfrifiaduro i osod yr alwad ar lwyfan y cyfarfod a chwilio am fynychwyr o bell sy'n dymuno cyfrannu. Efallai hefyd yr hoffai mynychwyr allu defnyddio peiriant cyfrifiaduro (pendesg/gliniadur/tabled) fel y gallant fynd drwy ddogfennau gan gynnwys unrhyw rai allai gael eu dosbarthu neu ddiweddaru yn ystod y cyfarfod a chael profiad tebyg i fynychwyr o bell.
5 Sgrin Arddangos: Er mwyn i bobl sy'n bresennol yn gorfforol weld y mynychwyr o bell. Fel arfer, byddai hwn yn deledu neu fonitor mawr.
6 Camera: Er mwyn i fynychwyr o bell weld yr ystafell. Mae sawl math gwahanol o gamera y gellir eu defnyddio. Bydd y dewis i gynghorau unigol yn dibynnu ar nifer y mynychwyr arferol yn yr ystafell, maint a gosodiad yr ystafell a'r gyllideb sydd ar gael. Ar lefel uchel y dewisiadau hynny yw:

- Camera “Blaen yr Ystafell”. Mae'r rhain yn debyg i we gamerâu mawr a byddent fel arfer yn cael eu gosod ar ben neu o flaen y sgrin arddangos. Maent yn cynnig golygfa lonydd o'r ystafell gyfarfod i fynychwyr o bell.
- Camera “360 gradd”. Gellir gosod y rhain ynghanol yr ystafell gyfarfod. Maent fel arfer yn cylchdroi er mwyn ffilmio'r person sy'n siarad gan ddefnyddio microffon cyfeiriol.

*Ffigur 2: Gosodiadau Posib ar gyfer Ystafell Gyfarfod ar gyfer Cyfarfodydd Fideo*



## Offer i Gefnogi Cyfarfodydd Hybrid gyda Chyfieithu ar y Pryd

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru 2022 (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau statudol ar lywodraethiant ar gyfer cynghorau cymuned a thref | GOV.WALES) yn datgan, er nad yw cynghorau cymuned yn gaeth i'r safonau ar gyfer y Gymraeg sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, fod disgwyl iddynt gynnal prif egwyddor y Mesur a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae llawer o gynghorau wedi mabwysiadu cynlluniau iaith sy'n gosod sut maent yn trin y ddwy iaith

Yn hanesyddol, mae llawer o gynghorau cymuned wedi galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned trwy ddarparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer unrhyw un sydd ddim yn deall Cymraeg. Mae cyfieithydd ar y pryd yn ymuno â'r cyfarfod, yn gwrando ar gyfraniadau'r sawl sy'n siarad yn Gymraeg ac yna'n darparu cyfieithiad Saesneg i unrhyw un sydd ei angen trwy glustffonau unigol. Gellir defnyddio nifer o dechnolegau gwahanol i gysylltu'r clustffonau, gan gynnwys dulliau isgoch, RF a Wi-Fi cydnaws. Efallai y bydd gan rai cynghorau eu hoffer cyfieithu eu hunain, neu efallai y byddant yn defnyddio offer a ddarperir gan leoliad eu cyfarfod neu efallai y bydd y cyfieithydd yn dod â'u hoffer eu hunain fel rhan o'r gwasanaeth ar gyfer y cyfarfod.


Ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir yn gyfan gwbl trwy drefniant ar-lein o bell, mae llwyfannau cyfathrebu megis Zoom a Microsoft Teams yn darparu cyfleuster cyfieithu ar y pryd. Gall cyfieithwyr ar y pryd ymuno â'r cyfarfod trwy eu peiriannau cyfrifiaduro eu hunain, a gellir rhannu eu cyfieithiad gyda phobl yn y cyfarfod sydd angen y cyfieithiad trwy ddewis sianel sain ar wahân.

Mae darparu cyfieithu ar y pryd o'r fath ar gyfer cyfarfod aml-leoliad yn cyflwyno haen ychwanegol o gymhlethdod gan y gallai mynychwyr yn yr ystafell gyfarfod a'r mynychwyr o bell fod angen cyfieithu ar y pryd. Gellir defnyddio sawl dull i ddatrys hyn.

### Dewis 1

Gellir defnyddio cyfieithwyr ar y pryd ar wahân ar gyfer mynychwyr ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae hwn yn drefniant cadarn ond mae'n golygu cost ychwanegol i gynghorau oherwydd bod rhaid talu am fwy nac un cyfieithydd.


*Ffigur 3: Cyfieithwyr ar y pryd ar wahân ar gyfer mynychwyr ar-lein ac wyneb yn wyneb*



## Dewis 2

Gellir defnyddio cyfieithydd ar y pryd ar-lein trwy'r Llwyfan Cyfathrebu ac mae mynychwyr yn yr ystafell gyfarfod yn ymuno â'r sesiwn ar-lein trwy declynnau unigol gyda chlustffonau er mwyn clywed y cyfieithiad. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i'r cyfieithydd fod yn yr ystafell gyfarfod ac e.e., y gall ei fynychu o gartref, sy'n gallu bod yn fwy effeithlon. Fodd bynnag, mae'n golygu fod angen i'r holl fynychwyr wyneb yn wyneb sydd angen cyfieithiad, gan gynnwys aelodau'r wasg neu'r cyhoedd sy'n arsylwi'r cyfarfod, gael cyswllt â pheiriant a chlustffon. Mae cynghorau wedi buddsoddi mewn nifer fechan o beiriannau y gellir eu benthyca yn ystod cyfarfod i'r perwyl hwn.


*Ffigur 4: Bydd mynychwyr lleol yn gwrando ar gyfieithiad ar-lein*



## Dewis 3

Gellir cysylltu'r offer cyfieithu lleol trwy beiriant penodol gyda gliniadur ac yna gyda'r sesiwn Llwyfan Cyfathrebu. Mae hyn yn galluogi cyfieithydd yn yr ystafell i ddarparu cyfieithiad trwy glustffonau i fynychwyr lleol ac i ymuno â'r sesiwn Llwyfan Cyfathrebu a darparu sianel gyfieithu ar gyfer mynychwyr o bell. Fodd bynnag, mae'r union gysylltiadau sydd eu hangen rhwng yr offer cyfieithu lleol a gliniadur yn amrywio yn ôl y dechnoleg a ddefnyddir ac mae'r dyluniad a'r gweithredu yn gallu bod yn ddigon cymhleth. Mae angen trafodaeth uniongyrchol gyda darparwyr yr offer i sicrhau bod yr offer cywir yn cael ei fanylebu a'i brynu.

*Ffigur 5: Cysylltir y cyfieithu ar y pryd lleol â'r llwyfan ar-lein*



## 5. Arferion Gorau yn ystod Cyfarfod:

Mae llawer o gynghorau yn cynnal cyfarfodydd aml-leoliad llwyddiannus ac mae mynychwyr yn cael profiad da ynddynt. Fodd bynnag, yn ogystal â'r cyfluniad technegol a'r gosodiad, mae'n bwysig rhoi sylw i sut mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal a sut mae'r dechnoleg yn cael ei defnyddio i osgoi problemau.

### Canllawiau Gweithdrefnol:

Dylid sicrhau ar ddechrau'r cyfarfod fod yr holl fynychwyr yn gyfarwydd â hanfodion y llwyfan cynadledda a sut fydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y llwyfan, gan gynnwys:

- Sut i ddenu sylw'r Cadeirydd. Yn aml iawn gwneir hynny trwy'r cyfleuster "codi eich llaw" sydd ar gael ar bob llwyfan.
- Sut i fudo a dadfudo eu hunain i atal sŵn cefndir mewn lleoliadau o bell rhag tarfu ar y cyfarfod.
- A fydd yr agenda a dogfennau eraill yn cael eu rhannu ar-lein trwy gyfrwng y llwyfan neu a fydd fersiynau a rannwyd ymlaen llaw yn cael eu defnyddio.
- A oes angen gwneud unrhyw ddarpariaethau i sicrhau bod pob mynychydd yn cael eu cynnwys yn llawn e.e., defnyddio penawdu os yw ar gael.
- A oes unrhyw faterion penodol yn rheolau sefydlog y cyngor ynghylch ymddygiad mewn cyfarfodydd ar-lein.

### Ymddygiad Da ar gyfer Mynychwyr o Bell yn Benodol:

- Byddwch yn Brydlon: Ymunwch â'r cyfarfod yn brydlon i osgoi unrhyw darfu diangen.
- Byddwch yn barod i ddweud pwy ydych chi.
- Mudwch Eich Hun Pan Nad Ydych Yn Siarad: Mae hyn yn helpu cyfyngu ar sŵn cefndir.
- Codwch Eich Llaw i Siarad: Defnyddiwch y cyfleuster 'codi eich llaw' i ddangos eich bod eisiau cyfrannu.
- Canolbwyntiwch: Peidio ag aml-dasgio yn ystod y cyfarfod.

### Canllawiau Technegol:

- Profwch Eich Gosodiad: Dylai'r swyddog neu gynghorwyr sy'n arwain y cyfarfod ofalu eu bod yn cyrraedd neu'n ymuno'n gynnar ar gyfer y cyfarfod er mwyn cael amser i brofi'r cysylltiad â'r rhyngrwyd, sain, a fideo.
- Enwebwch hwylusydd yn yr ystafell gyfarfod. Os yw'r Cadeirydd a swyddogion oll yn mynychu o bell mae angen eglurder ynghylch pwy fydd yn gwneud unrhyw addasiadau i osodiad yr ystafell gyfarfod i

osgoi unrhyw drafod neu oedi wrth wneud newidiadau angenrheidiol

- Paratowch ar gyfer Problemau Technegol: Dylai'r swyddog neu gynghorwyr sy'n arwain y cyfarfod ymgyfarwyddo â materion cyffredin allai godi yn ystod cyfarfod ar-lein neu hybrid a sut i ddelio â nhw. Mae'n arfer da cadw cofnod o faterion penodol sydd wedi codi a sut gawsant eu datrys. Gellir troi at y cofnod hwn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol os yw problemau tebyg yn codi.

## Canllawiau Diogeledd:

- Galluogwch yr Ystafell Aros. Mae hyn eich galluogi i wirio mynychwyr cyn rhoi mynediad iddynt i'r cyfarfod.
- Gofynnwch am Gôd Mynediad. Caiff gôd mynediad ei osod ar gyfer cyfarfodydd ar-lein a chael ei rannu ar wahân i unrhyw gwahoddiad sefydlog. Mae hyn yn rhwystro cyfranogwyr anawdurdodedig rhag ymuno â'r cyfarfod.
- Dilynwch Ganllawiau Diogeledd y Llwyfan. Mae pob llwyfan yn darparu canllawiau manwl ar wneud eich cyfarfodydd yn rhai diogel.

## 6. Datrys Problemau:

Gall cyfarfodydd hybrid gynnig profiad rhagorol i fynychwyr o bell ac wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd problemau'n codi weithiau.

Mae cryn dipyn o elfennau corfforol a meddalwedd yn gysylltiedig â chyfarfodydd Hybrid, ac os yw problemau'n codi, mae'n hanfodol bod yn amyneddgar a cheisio edrych ar y gwahanol elfennau er mwyn ystyried sut ellid gwella'r sefyllfa. Bydd gan bob ystafell gyfarfod ac adeilad acwsteg gwahanol a gosodiad gwahanol ar gyfer cydrannau rhwydwaith, sy'n golygu y bydd elfen o fentro a methu wrth geisio datrys problemau bob tro.

## 7 Dolenni a Chyfeiriadau

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (legislation.gov.uk))

Canllawiau ar gyfer Deddf 2021 (Canllawiau statudol ar lywodraethiant ar gyfer cynghorau cymuned a thref | GOV.WALES)

Zoom (Un llwyfan ar gyfer cysylltu | Zoom)

Microsoft Teams (Cyfarfodydd Fideo, Cyfarfodydd, Galwadau | Microsoft Teams)

Google Meet (Google Meet: Gwe-alwadau ar lein a chyfarfodydd fideo | Google Workspace)

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**